



*Valuing Your Views
Yn Gwerthfawrogi Eich Barn*

Gwerthusiad o Draweffaith Prosiect Estyn Llaw

Paratowyd gan: Wavehill Consulting

Paratowyd ar gyfer: Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cynnwys

Adran	Teitl	Rhif y Dudalen
	Cydnabyddiaethau	3
1	Crynodeb Gweithredol	4
2	Cyflwyniad a Briff	11
3	Methodoleg	13
4	Adolygiad Strategol	18
5	Trosolwg o'r Model Darparu	21
6	Dadansoddiad o Weithio mewn Partneriaeth	23
7	Dadansoddiad o'r Draweffaith ar Fuddiolwyr ac Agweddau'r Rheiny nad ydynt yn Fuddiolwyr	29
8	Casgliadau ar Argymhellion	59

Atodiadau

Adran	Teitl	Rhif y Dudalen
1	Holiaduron	3
2	Yr holl ddata a gasglwyd	9

Cydnabyddiaethau

Mae Ymgynghoriaeth Wavehill yn falch iawn o gael eu dewis i ymgymryd â gwerthusiad o brosiect Estyn Llaw a bu i ni fwynhau ymgymryd â'r ymchwil yn fawr iawn. Dymunwn fynegi ein diolchgarwch i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac Estyn Llaw am eu help a'u cefnogaeth yn ystod y gwerthusiad hwn. Rydym yn ddiolchgar hefyd i gynrychiolwyr y sector gwirfoddol a gymerodd amser i gwrdd â ni am gyfweiliadau a rhoi eu barn i ni.

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Cyflwyniad

Diben prosiect Estyn Llaw yw 'cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu dwyieithrwydd ac er mwyn hybu gwirfoddoli ymysg siaradwyr Cymraeg.' (Ffynhonnell: gwefan Estyn Llaw). Er 2000, mae Estyn Llaw wedi darparu ystod o gefnogaeth i fudiadau gwirfoddol sy'n cynnwys hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iaith, Cymraeg yn y gweithle a recriwtio gwirfoddolwyr dwyieithog, ynghyd â chefnogaeth ac ymgynghoriaeth wedi'u teilwra yn arbennig - am fanylion llawn gweler adran 5.2. Yn ogystal â hynny mae wedi goruchwyllo datblygiad partneriaethau iaith Gymraeg ym mhob un o'i awdurdodau lleol 'craidd' (gweler 2.2. isod).

Diben y gwerthusiad oedd ystyried traweffaith Estyn Llaw ar y sector gwirfoddol drwy gysylltu â'i bartneriaid, ei fuddiolwyr, ac fel grŵp rheoli, rhai mudiadau na chymerodd ran. Gofynnwyd i Wavehill:

- Fesur traweffaith prosiect Estyn Llaw ar arferion dwyieithog ymhlith grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.
- Mesur lefel dwyieithrwydd yn y sector wirfoddol a sut mae'n ymateb i ddiwylliant dwyieithog penodol Cymru ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol

Gofynnwyd i ni edrych hefyd i ba raddau yr oedd Estyn Llaw wedi cyflawni'r amcanion craidd a ganlyn:

- Codi ymwybyddiaeth ynghylch dwyieithrwydd yn y sector
- Cynorthwyo i godi gallu'r sector i ddarparu ei wasanaethau'n ddwyieithog
- Cynorthwyo grwpiau i ddatblygu ethos dwyieithog o fewn eu mudiadau

Mae'r adran hon yn grynodeb o ddull a phrif ganfyddiadau'r adroddiad hwn. Ei fwriad yw rhoi trosolwg o'r canfyddiadau allweddol, y casgliadau a'r argymhellion a wneir yng ngwerthusiad traweffaith prosiect Estyn Llaw.

1.2 Trosolwg o'r Fethodoleg

Rhannodd Wavehill ein methodoleg ymchwil yn dri chyfnod:

- Cyfnod 1 – Cynllunio Prosiect ac Adolygiad
- Cyfnod 2 – Ymgynghoriad gyda mudiadau Buddiolwyr Estyn Llaw a Mudiadau nad ydynt yn Fuddiolwyr
- Cyfnod 3 – Adrodd, Adborth a Lledaenu

Ar ôl adolygiad strategol o gyd-destun y polisi yn ymwneud â datblygiad yr iaith Gymraeg yn y sector gwirfoddol, ymgwymerwyd â chyfanswm o 42 o gyfweiliadau trwyadl, rhannol strwythuredig gyda'r grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Partneriaid Strategol Estyn Llaw
- Mudiadau buddiolwyr Estyn Llaw
- Mudiadau nad ydynt yn fuddiolwyr Estyn Llaw

Roedd y cyfweiliadau yn ansoddol yn bennaf o ran eu cynnwys, ond cynhyrchwyd peth data meintiol hefyd.

1.3 Trosolwg o'r Canfyddiadau Allweddol, y Casgliadau a'r Argymhellion

Mae'r adran hon yn amlinellu prif ganfyddiadau'r adroddiad, y dystiolaeth y seiliwyd hwy arni, a'r argymhellion a wneir yn sgil y casgliadau a wnaed.

1.4 Casgliad 1

Mae gweithio mewn partneriaeth Estyn Llaw yn amlwg wedi cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid strategol a'u rhanddeiliaid o bwysigrwydd datblygu'r Iaith Gymraeg o fewn y sector gwirfoddol. Mae'r partneriaethau yn amlwg wedi darparu fforwm ar gyfer trafodaeth a chydlynid ar ddatblygiad yr iaith a chynorthwyo i'w rhoi ar yr agenda ar lefel strategol.

1.4.1 Tystiolaeth

Teimlodd y partneriaid bod y partneriaethau lleol, a sefydlwyd, â'u cydlynu a'u hwyluso gan Estyn Llaw wedi bod o gymorth wrth roi'r iaith Gymraeg ar yr agenda ymhlith partneriaid strategol yn y meysydd sydd wedi'u cynnwys (Gweler 6.4).

1.4.2 Argymhellion

Mae'r model partneriaeth hwn wedi bod yn gam cyntaf pwysig wrth gysylltu â'r prif bartneriaid strategol a gellir ei ymestyn i awdurdodau lleol eraill er mwyn rhoi'r iaith Gymraeg ar agenda cyrff strategol mewn ardaloedd eraill. Cydnabyddir serch hynny y byddai hyn â goblygiadau ar lefelau staffio cyfredol prosiect Estyn Llaw.

1.5 Casgliad 2

Mae Estyn Llaw hefyd wedi cynorthwyo Cyngorau Gwirfoddol Sirol a'u biwroau gwirfoddoli i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer grwpiau a gwirfoddolwyr. Serch hynny, mae peth ffordd i fynd cyn y bydd y gwaith datblygu hwn yn cychwyn dwyn ffrwyth. Mae hefyd angen cytundeb rhwng partneriaid ar ddulliau casglu data sy'n perthyn i atgyfeirio er mwyn i Estyn Llaw werthuso ei drawffraith ar sail barhaus.

1.5.1 Tystiolaeth

Mae'r bartneriaeth a sefydlwyd ac a gydlynwyd gan Estyn Llaw wedi arwain at beth cydweithio rhwng Mentrau Iaith a Chynghorau Gwirfoddol Sirol er mwyn eu cynorthwyo i gael mynediad i gymunedau sy'n siarad Cymraeg. Roedd y cydlynwyr gwirfoddol ym mhob awdurdod lleol a oedd wedi'u cynnwys yn gwerthfawrogi'r cyfraniad wnaed gan Estyn Llaw wrth eu cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth ynghylch cyfleoedd gwirfoddoli, ond ychydig a gofnododd bod hyn wedi arwain at ganlyniadau (Gweler 6.4).

1.5.2 Argymhellion

Er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i gasglu canlyniadau y gallai Estyn Llaw fod wedi'u darparu yn y maes hwn, dylai Estyn Llaw a'r biwros gwirfoddol gytuno ar brotocol lle dylai gwirfoddolwyr newydd a gyfeiriwyd gan Estyn Llaw gael eu cofnodi fel y cyfryw gan y biwros gwirfoddoli.

1.6 Casgliad 3

Ceir tystiolaeth fod gwaith Estyn Llaw ar lefel bartneriaeth a lefel darparu wedi arwain at newid arferion, ymwybyddiaeth gynyddol, a sensitifrwydd tuag at faterion dwyieithog a gallu a pharodrwydd cynyddol i gysylltu â chymunedau sy'n siarad Cymraeg.

1.6.1 Tystiolaeth

Teimlodd partneriaid bod mudiadau wedi cychwyn teimlo'n fwy hyderus a phositif ynghylch y Gymraeg, gan gysylltu â chleientiaid a chymunedau sy'n siarad Cymraeg, hyd yn oed os yw'r dystiolaeth ar lefel ddarparu yn awgrymu bod peth ffordd i fynd eto i gyflawni canlyniadau pendant yn y maes hwn.

1.6.2 Argymhellion

Hwyrach bod angen cefnogaeth dilyn ymlaen ymarferol gan Estyn Llaw i fudiadau sydd yn y cyfnod hwn er mwyn cychwyn cyrraedd y canlyniadau hyn.

1.7 Casgliad 4

Mae'r mudiadau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn cynrychioli amrywiaeth eang o bwyntiau cychwyn, llwybrau datblygu a chanlyniadau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y sector.

1.7.1 Tystiolaeth

Fel yr amlinellwyd yn 7.3.1-4, ceir amrywiaeth o brofiad yn nhermau heriau dwyieithog, gallu, ewyllys a gyrwyr newid.

1.7.2 Argymhellion

Serch hynny, fel yr amlinellwyd yn adran 4.2, mae *O'n Gwirfodd* wedi darparu fframwaith ar gyfer (hunan) asesiad a newid sefydliadol, y gellir ei addasu i anghenion pob mudiad unigol. Yn strategol mae'n werth ystyried i ba raddau y gall y ddogfen hon ffurfio sylfaen ar gyfer templed datblygu i'r dyfodol a fframwaith y gall Estyn Llaw ei ddefnyddio i asesu anghenion grwpiau a chyflwyno pecynnau cefnogaeth a hyfforddiant priodol. Y fantais fyddai bod y ffordd hon o weithredu yn sicrhau bod amrywiaeth y profiadau yn y sector yn cael eu rheoli a gellir mesur lefel dwyieithrwydd mudiadau yn erbyn system meincnod diwydiant. Ceir hefyd fframwaith byddai'n mapio'r broses o ddatblygu yn ddwyieithog, gyda cherrig milltir allwedol wed ei datblygu a'i mabwysiadu. Mae'n bwysig yn ogystal i gydnabod y fframwaith asesu mae Estyn Llaw wedi datblygu sydd hefyd yn cynnig posibiladau i safoni'r ffordd mae sefydliadau yn cael eu asesu yn ogystal a mesur y lefel o ddwyieithrwydd sy'n datblygu o ganlyniad y darpariaeth a dderbynwyd.

1.8 Casgliad 5

Mae mudiadau buddiolwyr Estyn Llaw yn fwy tebygol o fod â chynllun yr iaith Gymraeg na mudiadau cyfwerth nad ydynt yn fuddiolwyr. Mewn rhai achosion ceir tystiolaeth hefyd i awgrymu bod hyn o ganlyniad i weithio gydag Estyn Llaw i ddatblygu cynllun.

1.8.1 Tystiolaeth

Mae gan 67% o fudiadau buddiolwyr Gynllun iaith Gymraeg o'u cymharu â 42% o fudiadau nad ydynt yn fuddiolwyr.

1.8.2 Argymhellion

Mae'n werth ystyried a ddylai Estyn Llaw ddilyn polisi o hyrwyddo Cynlluniau iaith Gymraeg yn weithredol, fel carreg filltir ddilynol i'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith poblogaidd. Ceir potensial mawr yma am weithio effeithiol mewn partneriaeth wedi'i gydlynu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Gallai Estyn Llaw gadw at bolisi o gyfeirio buddiolwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith at Fwrdd yr Iaith er mwyn i'r Bwrdd eu cefnogi wrth ddatblygu Cynllun. Yn amlwg mae llawer o sefydliadau wedi profi newid mewn agweddau a diwylliant o ganlyniad i hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith (gweler isod 1.10, 1.10.1 a 1.10.2) ac wedi dod yn fwy ymrwymedig i'r syniad o ddwyieithrwydd. Ymddengys mai ffurfioli'r ymrwymiad hwn drwy gynllun i ymddwyn fel gyrrwr ar gyfer newid sefydliadol fyddai'r cam rhesymegol nesaf.

1.9 Casgliad 6

Roedd buddiolwyr Estyn Llaw yn y gorffennol yn llawn canmoliaeth o'r gwasanaethau, yn nhermau ansawdd, defnyddioldeb a phriodoldeb. Dywedwyd bod tîm Estyn Llaw yn ymatebol, yn rhagweithiol ac yn barod i ddarparu cefnogaeth barhaus lle fo angen.

1.9.1 Tystiolaeth

Dywedodd ymron yr holl fuddiolwyr fod yr agweddau hyn ar y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn (gweler 7.4).

1.10 Casgliad 7

Mae Estyn Llaw wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio mudiadau er mwyn gweithio gyda hwy.

1.10.1 Tystiolaeth

Roedd Estyn Llaw yn gyfrifol am wneud y cyswllt cyntaf gyda llawer o'u buddiolwyr eu hunain a chanmolir eu hagwedd ragweithiol wrth geisio darganfod cyfleoedd i weithio gyda mudiadau a chyflwyno cefnogaeth briodol (Gweler 7.4)

1.11 Casgliad 8

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith yw'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan nifer fwyaf y buddiolwyr. Ymhellach, llwyddiant mwyaf y prosiect yw'r cynnydd pendant a wnaed gan llawer o fudiadau yn nhermau codi ymwybyddiaeth o'r angen i fynd i'r afael â dwyieithrwydd o fewn eu mudiadau a newid agweddau tuag at yr iaith Gymraeg.

1.11.1 Tystiolaeth

Teimlodd ymron yr holl fudiadau buddiolwyr eu bod wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn (Gweler 7.5.3).

1.11.2 Argymhellion

Er bod llawer i'w ganmol ynghylch y graddau y mae Estyn Llaw wedi effeithio ar newid canfyddiadau, mae'n amlwg bod llawer o waith yn parhau i'w wneud wrth adeiladu ar y newid hwn mewn canfyddiad. Mae'r ewyllys da hwn sydd wedi'i feithrin o'r newydd yn ffurfio sylfaen dda ar gyfer rhoi camau ymarferol ar waith, ond awgryma'r dystiolaeth bod llawer o fudiadau yn gofyn am gefnogaeth ychwanegol wrth roi hyn ar waith. Argymhellir y dylid ymgymryd ag asesiadau dilynol gyda buddiolwyr ar hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith er mwyn mesur gradd y newid ac i hwyluso camau ymarferol er mwyn rhoi'r weithred ar waith.

1.12 Casgliad 9

Roedd peth cynnydd wedi'i wneud wrth newid agweddau grwpiau tuag at gyflwyno delwedd ddwyieithog, a'r canlyniad oedd bod sawl buddiolwr yn y maes hwn wedi cychwyn cynhyrchu llenyddiaeth ddwyieithog o ganlyniad i waith codi ymwybyddiaeth Estyn Llaw.

1.12.1 Tystiolaeth

Nododd llawer o grwpiau eu bod wedi cychwyn cyfieithu deunydd cyhoeddusrwydd o ganlyniad i weithio gydag Estyn Llaw (Gweler 7.5.1).

1.13 Casgliad 10

Nid oedd cynnydd eang i weld yn nhermau datblygu gwasanaethau rheng flaen yn ddywieithog.

1.13.1 Tystiolaeth

Roedd rhai mudiadau wedi gwneud y trawsnewidiad i ddarparu symiau bach o'u gwasanaeth yn ddwyieithog, lle gallant wneud hynny o fewn eu gallu cyfredol, er nid oedd yr un mudiad wedi gwneud y trawsnewidiad i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Dywedwyd bod yr un rhwystrau sydd y tu hwnt i reolaeth y mudiadau eu hunain ac Estyn Llaw yn dal i fodoli, yn bennaf anawsterau wrth recriwtio lle'r oedd gwirfoddolwyr a staff sy'n siarad Cymraeg dan sylw.

1.13.2 Argymhellion

Mae y tu hwnt i gylch gorchwyl y gwerthusiad hwn alw am strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r materion hyn, ond galwodd nifer o fudiadau am ymdriniaeth strategol i fynd i'r afael â'r gagendor sgiliau o fewn y sector gwirfoddol a'r anhawster wrth recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

1.14 Casgliad 11

Adroddodd nifer o fuddiolwyr ynghylch cynnydd mewn hyder wrth ymdrin â chleientiaid a chymunedau dwyieithog a pharodrwydd cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg yr oeddynt yn meddu arni, hyd yn oed os mai ychydig iawn oedd hynny. Serch hynny, nid oedd hyn eto wedi arwain at recriwtio neu ymrwymiad staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg ar raddfa fawr, sydd wrth gwrs yn broblem genedlaethol a tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol Estyn Llaw (Gweler Casgliad 1.12).

1.14.1 Tystiolaeth

Gweler 7.5.2 a 7.5.4

1.14.2 Argymhellion

Wrth gydnabod y gagendor sgiliau ehangach a phroblemau wrth recriwtio gwirfoddolwyr dwyieithog a'r cynnydd a wnaed gan Estyn Llaw wrth newid agweddau a lefelau hyder, mae dal i fod yn werth argymhell, fel yn ôl 1.10.2, y dylid ymgymryd ag asesiadau dilynol gyda buddiolwyr sydd ar y cyfnod hwn yn eu datblygiad er mwyn mesur gradd y newid hwn ac i hwyluso camau ymarferol er mwyn rhoi hyn ar waith.

1.15 Casgliad 12

Nodwyd bod cost cyfieithu'n rhwystr mawr sy'n wynebu mudiadau sy'n dymuno datblygu dwyieithrwydd, ynghyd â diffyg ymarferwyr cymwys a gwirfoddolwyr dwyieithog yn eu meysydd - roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith grwpiau gofal cymdeithasol a chynghori. Mae Estyn Llaw wedi cynorthwyo rhai buddiolwyr i sicrhau gwasanaeth cyfieithu am bris isel gan brosiect Menter Iaith, ond bydd y rhwystr hwn yn parhau a bydd yn ddylanwad y tu hwn i reolaeth Estyn Llaw, oni wneir trefniadau arbennig ar gyfer y sector.

1.15.1 Tystiolaeth

Gweler 7.5.5 a 7.6

1.16 Casgliad 13

Yn amlwg mae Estyn Llaw wedi cyflwyno gwasanaethau i fwy o sefydliadau yn Sir Gâr nac ardaloedd eraill yn sgil y perthnasau sefydledig sy'n bodoli drwy'r bartneriaeth iaith sydd wedi hen sefydlu, daearyddiaeth ieithyddol y sir a'r arian y mae wedi derbyn gan yr awdurdod lleol. Gan hynny mae Estyn Llaw wedi cael y draweffaith fwyaf yn y sir honno. Serch hynny, mae Estyn Llaw wedi sicrhau cysondeb yn ansawdd y gwasanaeth a'r canlyniadau, er gwaethaf lleoliadau'r buddiolwyr.

1.16.1 Tystiolaeth

Gweler 6.5.1 a 7.2.1

1.16.2 Argymhelliad

Mae'r cynnydd a wnaed wrth gysylltu â grwpiau a chyflwyno canlyniadau lle fo partneriaethau sefydledig yn bodoli ar lefel sirol yn amlwg. Argymhellir parhau â'r gwaith sylfaen da gyda'r partneriaethau newydd a dylid defnyddio'r fforymau hyn fel sail i ymrwymiad pellach a chodi ymwybyddiaeth ynghylch materion dwyieithog o fewn y sector gwirfoddol ym Mhowys a Sir Benfro.

2. Cyflwyniad a Brïff

2.1 Cyflwyniad

Diben prosiect Estyn Llaw yw 'cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu dwyieithrwydd ac er mwyn hybu gwirfoddoli ymysg siaradwyr Cymraeg.' (Ffynhonnell: gwefan Estyn Llaw).

Mae'r prosiect yn darparu hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth ymarferol i fudiadau gwirfoddol sy'n dymuno datblygu eu gallu yn yr Iaith Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn bodoli er 2000 ac yn cyflogi 1.6 aelod o staff cyfwerth â llawn amser. Cyflwynir Estyn Llaw gan Gwmni Iaith ac fe'i hariannir yn bennaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, er ei fod wedi tynnu ar arian ychwanegol gan nifer o awdurdodau lleol drwy referniw uniongyrchol o'i weithgareddau hyfforddi.

Datblygwyd prosiect Estyn Llaw mewn ymateb i angen yn y sector gwirfoddol am gefnogaeth wrth ddatblygu'r iaith, rhywbeth a adnabuwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Gosododd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ddyletswydd statudol ar gyrff statudol y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac i ffurfioli'r ymrwymiad hwn drwy Gynlluniau neu Bolisïau'r Iaith Gymraeg. Ond, nid oes rhaid i'r sector gwirfoddol gydymffurfio gyda'r ddeddf hon. Serch hynny, mae nifer fawr o fudiadau gwirfoddol eu hunain wedi datblygu polisïau a chynlluniau eu hunain yn y blynyddoedd diwethaf ac, yn aml, o dan amodau cytundebau lefel gwasanaeth gyda sefydliadau statudol, neu mewn achosion eraill yn syml yn sgil dymuniad i fod yn gynhwysol, amrywiol ac i gynnig gofal cwsmeriaid o ansawdd da.

Eto i gyd, er gwaethaf ewyllys da yn eang tuag at yr Iaith Gymraeg o fewn rhannau helaeth o'r sector, teimlwyd bod llawer o fudiadau â diffyg gwybodaeth, adnoddau (yn bobl ac yn ariannol) a chatalydd angenrheidiol i yrru'r broses o ddatblygu'r iaith Gymraeg o fewn eu mudiadau.

Er 2000, mae Estyn Llaw wedi darparu ystod o gefnogaeth i fudiadau gwirfoddol sy'n cynnwys hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iaith, Cymraeg yn y gweithle a recriwtio gwirfoddolwyr dwyieithog, ynghyd a chefnogaeth ac ymgynghoriaeth wedi'u teilwra'n arbennig - am ddadansoddiad llawn gweler adran 5.2. Mae hefyd wedi goruchwylio partneriaethau'r iaith Gymraeg ym mhob un o'i awdurdodau lleol 'craidd' (gweler 2.2. isod).

2.2 Ardal Ddaeryddol

Yn wreiddiol, brïff Estyn Llaw oedd gwasanaethu Gorllewin a Chanolbarth Cymru: sef Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Serch hynny, yn ogystal â gwasanaethu'r ardaloedd yma, mae'r prosiect wedi gweithio gyda mudiadau ledled Cymru.

Mae pob un o ardaloedd y pedwar awdurdod lleol yn wahanol iawn yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol a chan hynny mae pob un yn cynnig her wahanol i'r gwasanaeth.

Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf poblog ac sydd â'r nifer uchaf o bobl sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg sef 88,946, sy'n cynrychioli 53.1% o gyfanswm ei boblogaeth 3 mlwydd oed a hŷn. Mae gan y sir strïbed diwydiannol poblog i'r de, sy'n cynnwys tref Llanelli, ei anheddiad mwyaf, lle fo cyfran lai o'r boblogaeth (45.3%) ag un neu'n fwy o'r sgiliau uchod. Tuedda canrannau'r siaradwyr Cymraeg fod yn uwch yn rhan ogleddol a gogledd-orllewin y sir. (Ffynhonnell, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2001).

Mae 54.1% o breswylwyr 3 mlwydd oed a hŷn yn awdurdod lleol ac etholaeth **Ceredigion** yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Ei thref fwyaf, Aberystwyth, sydd â'r gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg, yn bennaf oherwydd ei phoblogaeth cymharol fawr o fyfyrwyr, tra bod gan drefi Llandysul yn ne'r sir a Thregaron yn y gogledd-ddwyrain gyfrannau uwch o bobl â'r sgiliau uchod (y ddwy dref â mwy na 70%). (Ffynhonnell, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2001).

Mae gan awdurdod lleol **Sir Benfro** gyfran o 23.9% o'i boblogaeth tair blwydd oed a hŷn yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg (Ffynhonnell, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2001). Serch hynny, mae dosbarthiad y bobl sydd ag un neu'n fwy o'r sgiliau hyn mewn Cymraeg yn amrywio o de'r sir, gyda chrynodeiadau uwch yng ngogledd y sir uwchlaw'r 'y ffin ieithyddol' draddodiadol, ffin draddodiadol rhwng de Sir Benfro sydd wedi'i Seisnigeiddio a'r siaradwyr Cymraeg yn y gogledd.

Powys yw'r awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, yn nhermau ehangdir, ond dyma'r sir fwyaf tenau ei phoblogaeth hefyd. Gall tua 24% o boblogaeth y sir siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Eto i gyd, mae crynodeiadau sylweddol yn uwch yn bodoli ar ochr orllewinol y sir. Er enghraifft, mae tua 59% o boblogaeth 3 mlwydd oed a hŷn ym Machynlleth yn meddu ar un neu'n fwy o sgiliau yn yr Iaith Gymraeg. (Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2001).

2.3 Y Briff

Diben y gwerthusiad hwn oedd ystyried traweffaith Estyn Llaw ar y sector gwirfoddol drwy gysylltu â'i bartneriaid, ei fuddiolwyr a rhai mudiadau nad ydynt yn fuddiolwyr i fod yn 'grŵp safonol'. Gofynnwyd i Wavehill:

- Fesur traweffaith prosiect Estyn Llaw ar arferion dwyieithog ymhlith grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.
- Mesur lefel dwyieithrwydd yn y sector wirfoddol a sut mae'n ymateb i ddiwylliant dwyieithog penodol Cymru ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol

Gofynnwyd i ni edrych hefyd ar ba raddau yr oedd Estyn Llaw wedi cyflawni'r amcanion craidd a ganlyn:

- Codi ymwybyddiaeth ynghylch dwyieithrwydd yn y sector
- Cynorthwyo i godi gallu'r sector i ddarparu ei wasanaethau'n ddwyieithog
- Cynorthwyo grwpiau i ddatblygu ethos dwyieithog o fewn eu mudiadau

Nododd briff y gwerthusiad yn benodol nad oedd cylch gorchwyl Wavehill yn cynnwys dadansoddiad o agweddau rheolaethol neu gyfundrefnol darparu'r prosiect, na'i berfformiad yn erbyn canlyniadau, na gwariant. Gan hynny nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw ddata sy'n ymwneud â chanlyniadau, gwariant, cost fesul canlyniad, ond mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu canlyniad a thraweffaith.

2.4 Diffiniad o 'Gynllun Iaith'

Mae'r adroddiad yma yn defnyddio *O'n Gwirfodd* (2005) i ddiffinio yr hyn sydd yn cael ei ystyried yn Gynllun Iaith:

Mae cynllun iaith yn ddogfen weithredol sy'n nodi pa wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg, sut bydd y gwasanaethau yma yn cael eu darparu, a phryd byddent ar gael i'r cyhoedd.

3. Methodoleg

3.1 Cyflwyniad

Strwythurodd Wavehill y fethodoleg werthuso yn dri chynnod gwahanol:

- Cyfnod 1 – Cynllunio'r Prosiect ac Adolygu
- Cyfnod 2 – Ymgynghoriad â Mudiadau Buddiolwyr Estyn Llaw a Mudiadau nad ydynt yn Fuddiolwyr
- Cyfnod 3 – Adrodd, Adborth a Lledaenu

Ceir manylion y gweithgareddau penodol a ddigwyddodd o fewn y cyfnodau hyn isod.

3.2 Cyfnod 1 – Cynllunio'r Prosiect ac Adolygiad Strategol

Yn ystod y cyfnod hwn cyfarfu Wavehill â'r Grŵp Llywio i gytuno ar amserlen ar gyfer y prosiect a oedd yn cynnwys y data canlynol wedi'i dorri i lawr fesul wythnos

- Y dasg oedd yn rhaid ymgymryd â hi
- Amcan ymchwil y dasg
- Canlyniad y dasg
- Yr ymgynghorydd sy'n gyfrifol am y dasg
- Dyddiadau cychwyn a diwedd y dasg

3.2.1 Adolygiad Strategol

Ymgwymerodd Wavehill ag adolygiad o'r cyd-destun strategol sy'n ymwneud â dwyieithrwydd yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Nod yr adolygiad hwn, sy'n ffurfio adran 4 yn yr adroddiad hwn, oedd darparu cefndir cyd-destunol i ganfyddiadau'r adroddiad a rhoi trosolwg o'r cyd-destun strategol y mae prosiect Estyn Llaw yn darparu ei wasanaethau o'i fewn.

3.2.2 Cynllunio Holiadur

Cynhyrchodd Wavehill ddau ganllaw testun i'w defnyddio yn ystod y cyfweiliadau â rhanddeiliaid Estyn Llaw. Ceir manylion ynghylch cynnwys pob un o'r rhain isod ac mae'r holiaduron ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Cyflwynwyd drafft cyntaf o'r holiaduron hyn yn ail gyfarfod y grŵp llywio a gwnaed newidiadau yng ngoleuni'r sylwadau a chytunwyd ar y diwygiadau yn y cyfarfod hwnnw.

3.2.3 Fframwaith Gwerthuso

Wrth weithio gyda'r Grŵp Llywio, cynhyrchodd Wavehill fframwaith gwerthuso, a oedd â thri diben:

- Darparu trosolwg o'r grwpiau rhanddeiliaid a oedd yn gysylltiedig
- Cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion a themâu gwerthuso ym m'rff gwreiddiol yr holiaduron a ddatblygwyd.
- Darparu trosolwg o'r dulliau casglu data a dadansoddi'r data a gasglwyd

Ymddengys y fframwaith isod:

Rhanddeiliaid


Dyma bortread graffig o'r rhanddeiliaid yr ymgwymerwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad. Y lletaf yw'r pyramid, y mwyaf yw'r grŵp o randdeiliaid.

Staff Estyn Llaw

Partneriaid Strategol

Buddiolwyr Uniongyrchol Estyn Llaw

Mudiadau nad ydynt yn Fuddiolwyr



Tabl Dadansoddi

Dengys y tabl hwn y themâu a nodwyd yn y briff gwreiddiol, y tendr ac eraill y cytunwyd arnynt ar ôl hynny mewn cyfarfodydd Grŵp Llywio a sut maent yn perthyn yn uniongyrchol i'r holiaduron a ddatblygwyd a'r grwpiau rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy.

Thema neu amcan	Grŵp Rhanddeiliaid	Dull Casglu Data	Dull Dadansoddi	Canlyniad
Map darpariaeth	Staff Estyn Llaw	Sgript Cwmpas Cwestiwn 4	Trosolwg o'r ddarpariaeth	Dadansoddiad a throsolwg o'r ddarpariaeth
Cryfderau a Gwendidau'r Ddarpariaeth	Staff Estyn Llaw Buddiolwyr	Sgript Cwmpas Cwestiwn 5 Sgript Mudiad Cwestiwn 18 a 19, 20, 21, 22	Ansoddol a meintiol	Dadansoddiad ansoddol a meintiol
Meysydd i Ddatblygu'r Gwasanaeth	Staff Estyn Llaw Buddiolwyr a Mudiadau nad ydynt yn Fuddiolwyr	Sgript Cwmpas Cwestiwn 9 Sgript Mudiad Cwestiwn 24	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Pwynt cychwyn neu linell sylfaen mudiadau buddiolwyr	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 14, 15	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Math o grŵp neu fudiad	Buddiolwyr a Mudiadau nad ydynt yn Fuddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 1, 2, 4	Ansoddol a meintiol	Dadansoddiad ansoddol a meintiol
Profiad o wasanaeth Estyn Llaw	Buddiolwyr	Sgript Cwmpas Cwestiwn 5 Sgript Mudiad Cwestiwn 18 a 19, 20, 21, 22	Ansoddol a meintiol	Dadansoddiad ansoddol a meintiol

Thema neu amcan	Grŵp Rhanddeiliaid	Dull Casglu Data	Dull Dadansoddi	Canlyniad
Rhesymau dros weithio gydag Estyn Llaw	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 15	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Traweffaith gwasanaeth Estyn Llaw	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 20, 21 (i-vii), 22	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Traweffaith gwaith Estyn Llaw ar allu'r grŵp neu fudiad i recriwtio staff dwyieithog a gwirfoddolwyr	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 21 (v).	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
gwaith Estyn Llaw ar allu'r grŵp neu fudiad i ddatblygu dwyieithrwydd	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 20, 21 (i; iii).	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Traweffaith gwaith Estyn Llaw ar allu'r grŵp neu fudiad i ymateb yn well i gleientiaid, cwsmeriaid neu gymunedau dwyieithog.	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 20, 21 (iv)	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Traweffaith gwaith Estyn Llaw ar allu'r grŵp neu fudiad i ddatblygu	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 20, 22	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Draweffeithiau eraill	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 21 (vii).	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Traweffaith gwaith Estyn Llaw ar ymwybyddiaeth y grŵp neu fudiad o ddwyieithrwydd neu ddiwylliant dwyieithog	Buddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 21 (iii)	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Rhwysrau a all fodoli o fewn y mudiad rhag ceisio cefnogaeth gan Estyn Llaw	Buddiolwyr a Mudiadau nad ydynt yn Fuddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 23	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol
Dadansoddiad anghenion ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth i'r dyfodol	Buddiolwyr a Mudiadau nad ydynt yn Fuddiolwyr	Sgript Mudiad Cwestiwn 24	Ansoddol	Dadansoddiad Ansoddol

3.2.4 Cyfweiliadau Cwmpasu Wyneb yn Wyneb Rhannol Strwythuredig gyda Staff Estyn Llaw

Ymgwymerodd Wavehill â chyfres o gyfweiliadau cwmpas wyneb yn wyneb gyda rheolwyr Estyn Llaw a staff darparu Estyn Llaw. Ni ddefnyddiwyd y cyfweiliadau hyn i gasglu data i hysbysu'n dadansoddiad traweffaith yn uniongyrchol, ond fe'u cynhaliwyd er mwyn ceisio darlun clir a chynhwysfawr o:

- Strwythur rheoli'r prosiect a'r mecanweithiau darparu
- Ei amcanion a chanlyniadau allweddol
- Pa systemau sydd yn eu lle i gasglu traweffaith y gwasanaethau
- Heriau gweithredol sy'n wynebu staff darparu wrth gysylltu â grwpiau gwirfoddol a darparu cyngor, ymgynghoriad a chefnogaeth
- Cynnydd yn erbyn amcanion, a'r traweffaith canfyddedig
- Meysydd y gellir datblygu gwasanaeth o'u mewn

3.3 Cyfnod 2 – Ymgynghoriad â Phartneriaid, Mudiadau Buddiolwyr a Mudiadau nad ydynt yn Fuddiolwyr Estyn Llaw

Ymgwymerodd Wavehill â 42 o gyfweiliadau trwyadl, rhannol strwythuredig â mudiadau gwirfoddol, yn bennaf yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru, ond hefyd mewn rhannau eraill o Gymru. Ystyrir hyn yn sampl digonol mewn astudiaeth sy'n ansoddol yn bennaf, lle rhoddwyd y pwyslais ar gasglu data yn ymwneud â chanlyniadau, agweddau ac arfer sefydliadol. Cytunwyd ar y sampl o'r rhai a holwyd gyda'r Grŵp Llywio ac fe'u dewiswyd yn unol â'r ffactorau canlynol:

- Ardal ddaearyddol – yn nhermau dalgylch a lleoliad
- Maint a math y grŵp gwirfoddol
- Maes gweithgaredd – mae Estyn Llaw wedi canolbwyntio ar grwpiau o'r maes gwasanaeth iechyd, gofal cymdeithasol a theulu. Gan hynny mae'r meysydd hyn wedi'u cynrychioli'n dda yn y sampl.
- Grwpiau a mudiadau nad ydynt wedi'u cysylltu'n draddodiadol â'r laith Gymraeg.
- Ar gyfer buddiolwyr, rhoddwyd ystyriaeth i'r math o gefnogaeth a dderbyniwyd gan Estyn Llaw.

Defnyddiwyd y cyfweiliadau hyn i gasglu data ansoddol a meintiol sy'n perthyn i:

- Ansawdd, priodoldeb a defnyddioldeb y cyngor, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a gynigwyd gan Estyn Llaw.
- Traweffaith y gefnogaeth a dderbyniwyd yn nhermau meithrin gallu o fewn y mudiad:
 - darparu gwasanaethau dwyieithog
 - Cynyddu gallu gwirfoddolwyr a staff cyfredol i ddefnyddio'r Gymraeg,
 - recriwtio gwirfoddolwyr a staff dwyieithog,
 - datblygu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog
 - bod yn fwy hygyrch i'r gymuned
- Unrhyw werth ychwanegol i'r mudiad o ganlyniad i'r gefnogaeth a dderbyniwyd
- Traweffaith canfyddedig dwyieithrwydd ar eu defnyddwyr gwasanaeth, eu cymuned neu eu cymuned fuddiant

Cysylltodd ein canolfan gyswllt â chynrychiolwyr enwebedig y mudiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg i ddechrau yn unol â'u dewis ar y cyswllt cyntaf gan roi'r cyfle iddynt gymryd rhan yn y cyfweiliad yn y naill iaith neu'n llall. Ymgwymerwyd â rhan fwyaf y cyfweiliadau wyneb yn wyneb, ond lle nad oedd hynny'n bosibl, ar ran y rhai a holwyd, ymgwymerwyd â'r cyfweiliadau dros y ffôn (Gweler Atodiad 1 i weld yr holiaduron llawn).

3.4 Cyfnod 3 – Adrodd, Adborth a Lledaenu

Y cyfnod olaf oedd ysgrifennu, golygu a chyflwyno'r adroddiad, ac adrodd yn ôl wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Estyn Llaw a'r rheiny yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad.

3.4.1 Sicrwydd Ansawdd

Darllenir holl adroddiadau Wavehill a'u gwerthuso gan un o'n partneriaid cyn cyflwyno'r drafft cyntaf i'r cleient. Mae hyn yn sicrhau bod ein holl adroddiadau yn:

- Glir
- Darllenadwy
- Trwyadl
- Cynhwysfawr

3.4.2 Cyfarfod Triongli

Cyflwynodd Wavehill ddrafft cyntaf o'r adroddiad mewn cyfarfod triongli, lle trafodwyd y canfyddiadau cychwynnol a chytunwyd ar y casgliadau terfynol a'r argymhellion gyda'r Grŵp Llywio. Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr adroddiad terfynol

- Wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn
- Yn gynhwysfawr ac yn glir
- Yn gytbwys, yn deg a bod yr holl grwpiau yn cytuno arno
- Mae hefyd yn sicrhau bod yr adroddiad yn cynnwys casgliadau ac argymhellion sy'n realistig ac y gellir gweithredu arnynt.

3.4.3 Adborth i Randeiliaid

Ar ôl gwerthuso, polisi Wavehill yw cynhyrchu dogfen adborth cyfeillgar i'r buddiolwyr sy'n hysbysu'r holl rhanddeiliaid a'r ymgynghoreion o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad a'r camau allweddol yr amlinellir yn yr adroddiad. Datblygir y dogfennau adborth hyn mewn partneriaeth â'r Grŵp Llywio gwerthuso bob amser.

4. Adolygiad Strategol

4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn adolygiad o rai o brif ddogfennau polisi a strategaeth a digwyddiadau diweddar sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg yn y sector gwirfoddol. Ei diben yw darparu cefndir cyd-destunol i ganfyddiadau'r adroddiad a rhoi trosolwg o'r cyd-destun strategol y mae Estyn Llaw yn darparu ei wasanaethau o'i fewn.

4.2 Y Sector Gwirfoddol yng Nghymru

Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru wedi profi cyfnod o dyfiant digynsail ac mae wedi cychwyn ennill cydnabyddiaeth ffurfiol o'i bwysigrwydd fel darparwr gwasanaeth a gyrrwr ar gyfer datblygiad ac adfywiad cymunedol.

Ym 1998 gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad cychwynnol i weithio gyda'r sector yng Nghymru a'i ddatblygu drwy *Gynllun Sector Gwirfoddol*:

'Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymrwymedig i adnabod, gwerthuso a hybu'r sector gwirfoddol wrth iddo feithrin partneriaeth wirioneddol gyda'r Sector.' - *Cynllun Sector Gwirfoddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru* (1998).

Ers hynny mae Adolygiad eang o'r Cynllun yn 2002 ac, yn hanfodol, symudiad tuag at gylchoedd ariannu yn y tymor hirach ar gyfer y sector gwirfoddol, wedi cryfhau'r ethos hwn o bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector.

Mae'r sector gwirfoddol hefyd wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth sicrhau arian o amrywiaeth o ffynonellau, yn bennaf:

- Y Sector statudol, drwy sicrhau Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chyflwyno ar ran cyrff statudol megis awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Byrddau Iechyd Lleol, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun.
- Mae ffynonellau anllywodraethol megis Y Gronfa Loteri Fawr - Y Gronfa Cyfleoedd Newydd pellach - a Mudiad Rowntree wedi gwneud cyfraniadau sylweddol at ddatblygiad mudiadau gwirfoddol llai yng Nghymru.
- Mae'r sector gwirfoddol hefyd wedi bod yn fuddiolwr mawr o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd o dan y rhaglenni Amcan Un a Dau. Mae cyrff gwirfoddol yng Nghymru wedi denu arian i feithrin eu gallu ac i ddarparu gwasanaethau arloesol sy'n ymwneud ag adfywiad cymunedol a datblygiad economaidd.

Yn sgil y twf hwn, amcangyfrifir yn 2005 bod 30,000 o bobl yn cael eu cyflogi gan y sector gwirfoddol yng Nghymru, sy'n cynrychioli twf o dros 50% mewn deng mlynedd, fel y dengys y tabl isod:

Blwyddyn	1995	1997	2000	2005
Amcangyfrif o nifer y staff a gyflogir o fewn y Sector Gwirfoddol yng Nghymru	12,000	13,000	22,900	30,000

Ffynhonnell: *Sgiliau Sector Gwirfoddol Cymru* (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2005). Ffynonellau data: 1995 - *The UK Voluntary Sector Statistical Almanac* (Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol, 1998); 1997 - *Mudiadau Gwirfoddol yng Nghymru: canlyniadau Arolwg a ariannwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru* (Hybu Iechyd Cymru, 1997); 2000 - Labour Force Returns (LFS, 2000); 2005 - *Sgiliau Sector Gwirfoddol Cymru* (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2005).

4.3 Dwyieithrwydd a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru

Mae'r twf hwn wedi cryfhau a symbylu proffesiynoliaeth y sector yn gynyddol. Gan fod llawer o fudiadau gwirfoddol wedi symud fwyfwy at ddod yn ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ar ran cyrff cyhoeddus, mae wedi bod yn ofynnol iddynt gynhyrchu cynlluniau a pholisïau'r laith Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y safonau dwyieithog y mae eu cyrff comisiynu yn cadw atynt.

Yn ychwanegol, mae gyrwyr eraill wedi annog y sector yn gyffredinol i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog a recriwtio gwirfoddolwyr dwyieithog. Dengys y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn bod llawer o fudiadau gwirfoddol yn dymuno datblygu eu gallu dwyieithog am amryw o resymau gan gynnwys:

- Dymuniad ymhlith holl grwpiau i fod yn hygyrch i bob rhan o'u cymunedau ac i gysylltu â phob grŵp
- Cydnabyddiaeth bod dwyieithrwydd yn perthyn yn agos at lawer o werthoedd sy'n tanategu'r sector gwirfoddol, megis cyfleoedd cyfartal, arferion anwahaniaethol, amrywiaeth a gofal cwsmeriaid ymatebol.

Eto i gyd, ceir rhesymau cyd-destunol ehangach pam na all llawer o fudiadau gwirfoddol yrru'r broses hon ar eu pennau eu hunain. Mae *Futureskills* (2003) yn cynnwys manylion y prif heriau sy'n wynebu mudiadau gwirfoddol:

- Diffyg arian craidd
- Arian ynghlwm wrth brosiectau
- Anhawster wrth recriwtio staff a gwirfoddolwyr

Yn ychwanegol, nododd *Sgiliau Sector Gwirfoddol Cymru* (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2005) bod hanner mudiadau gwirfoddol sy'n cyflogi staff wedi adrodd ynghylch anawsterau wrth recriwtio. Yn ychwanegol, dangosodd *Arolwg Panel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2005* (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2005) bod mudiadau llai yn dioddef trosiant staff uwch ar gyfartaledd o'i gymharu â'r rhai mwy.

Ymhellach, canfu *Futureskills* (2003):

- Bod 17% o'r mudiadau a holwyd yng Nghymru yn nodi diffyg sgiliau yn yr iaith Gymraeg o fewn marchnad lafur y sector gwirfoddol fel un o'r rhesymau dros fethu â llanw swyddi gweigion
- Bod 26% o fudiadau yn enwi diffyg sgiliau'r laith Gymraeg ymhlith ymgeiswyr sy'n ceisio am waith yn eu mudiad fel rheswm pam nad oes gan yr ymgeiswyr y sgiliau angenrheidiol
- Bod 18% o fudiadau yn teimlo bod sgiliau'r laith Gymraeg ymhlith y gagendor sgiliau generig o fewn eu mudiadau

Canfu Arolwg Panel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2005 bod y gagendor sgiliau yn fwy serch hynny. Mewn dadansoddiad wedi'i seilio ar ddadansoddi anghenion hyfforddiant, roedd ymron i 70% o staff a thros 50% o fudiadau yn dioddef gagendor sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Datgelwyd hefyd bod mudiadau mwy yn fwy tebygol o ddarparu hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg i'w staff a'u gwirfoddolwyr na'r mudiadau llai.

Yn wir, dengys data a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad hwn bod y rhwystrau canlynol yn bodoli sy'n atal datblygu dwyieithrwydd yn y sector:

- Diffyg gwybodaeth ar sut i fynd ati i ddatblygu'r iaith Gymraeg o fewn eu mudiad
- Diffyg amser - mae llawer o fudiadau gwirfoddol yn darparu gwasanaeth rheng flaen, gyda llawer ohonynt ag ychydig o amser ac adnoddau staff i ymroi i'r broses
- Anhawster wrth gael mynediad at wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg
- Diffyg adnoddau i'w rhoi i gyfieithu neu ddatblygu sgiliau eu staff neu wirfoddolwyr
- Neu, mewn sawl achos, yn syml nid yw rhai mudiadau gwirfoddol yn ymwybodol o ddymunoldeb datblygu dwyieithrwydd o safbwynt gofal cwsmeriaid a chysylltu â'r gymuned. (Gweler adran 7 am ddadansoddiad llawn o'r themâu hyn).

Datblygiad pwysig yn ddiweddar, serch hynny, yw'r arwydd clir bod gwneuthurwyr polisïau a phartneriaid strategol o fewn y sector gwirfoddol yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r iaith Gymraeg yn y sector. Mae cyhoeddi *O'n Gwirfodd - As Good As our Words* (Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2006) wedi cyfrannu rhywfaint at ddarparu mudiadau â fframwaith ymarferol er mwyn datblygu'r iaith Gymraeg o fewn eu mudiad trwy gyfrwng camau ymarferol. Mae'r ddogfen, sy'n fersiwn diwygiedig o ddogfen a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym 1999, erbyn hyn yn cynnig map proses i fudiadau sydd wedi'i rannu i'r cerrig milltir a ganlyn:

1. **Codi ymwybyddiaeth** – datblygu ymwybyddiaeth a chefnogaeth mudiadau dros yr egwyddor o feithrin eu gallu dwyieithog.
2. **Adolygu polisi ac arfer cyfredol** – ymgymryd â phroses o hunanwerthuso gonest a gosod lefel sylfaen i ddatblygu, a gosod amcanion i'r dyfodol.
3. **Llunio cynllun** – sut i ddatblygu mesurau priodol sy'n cwrdd â'r amcanion a adnabuwyd yng Nghyfnod 2.
4. **Proffil iaith o'r staff a'r gwirfoddolwyr** – sut i ymgymryd ag archwiliad o'r sgiliau dwyieithog o fewn eich mudiad
5. **Gosod amserlen** – gosod targedau priodol o fewn amserlen synhwyrol
6. **Lansio'r Cynllun** – sut i lansio'r cynllun, hysbysu rhanddeiliaid o fodolaeth y cynllun a mewnosod arferion gweithredu newydd ymhlith staff a gwirfoddolwyr.

Hwyrach y bydd *O'n Gwirfodd - As Good As our Words* yn profi'n garreg filltir bwysig yn natblygiad strategol yr iaith Gymraeg o fewn y sector wrth ddarparu fframwaith i fudiadau feithrin gallu. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer nod ansawdd sefydliadol achrededig neu gydnabyddedig - rhywbeth y gelwir amdano gan sawl hapddaliwr a ymgynghorwyd â hwy yn ystod y gwerthusiad hwn. Serch hynny, mae'n amlwg o'r data y cyfeirir ato uchod ac yng nghorff y gwerthusiad hwn bod rhwystrau eraill yn parhau o ran ariannu, amser a phwll o staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg sydd ar gael. Mae hyn yn galw am ymdriniaeth strategol bellach wedi'i chydlynu ar lefel genedlaethol.

5. Trosolwg o'r Model Darparu

5.1 Cyflwyniad

Diben yr adran hon yw rhoi trosolwg o wasanaethau a gweithgareddau Estyn Llaw. Nid ei bwriad yw bod yn rhestr gynhwysfawr o weithgareddau a chanlyniadau oes y prosiect. Yn hytrach ei bwriad yw darparu trosolwg o weithgareddau'r prosiect wrth ei bwynt cyswllt â'i fuddiolwyr a phartneriaid.

5.2 Gweithio mewn Partneriaeth

Ar lefel bartneriaeth mae Estyn Llaw wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar sefydlu, cydlynu a hwyluso fforymau partneriaeth iaith Gymraeg ar lefel sirol. Bellach mae fforymau wedi'u sefydlu yn Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Canolbwyntia'r partneriaethau ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y sector gwirfoddol drwy gysylltu ag asiantaethau sector gwirfoddol allweddol ym mhob sir. Yn Sir Gâr a Cheredigion, mae gan y fforymau gynrychiolaeth o:

- Estyn Llaw
- Y Cyngorau Gwirfoddol Sirol Lleol
- Y Mentrau Iaith Lleol
- Yr Awdurdod Lleol

Ym Mhowys a Sir Benfro, mae'r partneriaethau yn ddatblygiadau diweddar sydd heb gynrychiolaeth yr awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Mae rhai gweithgareddau wedi deillio o'r partneriaethau, megis digwyddiadau i hyrwyddo gwirfoddoli ymhlith pobl ddwyieithog, stondinau mewn ffeiriau a marchnadoedd y ffermwyr lleol a defnyddio aelodau'r fforymau i gysylltu â chasglu cynulleidfa ar gyfer digwyddiadau hyfforddi. Ceir tystiolaeth bod y bartneriaeth yn llwyddo wrth roi'r iaith Gymraeg ar agenda'r sector gwirfoddol ym mhob sir (Gweler Adran 6 am ddadansoddiad llawn).

5.3 Hyfforddiant

Cyflwyno Estyn Llaw ystod eang o gyrsiau hyfforddi. Mae pob un ohonynt yn ymateb i angen a adnabuwyd o fewn y sector. Yn aml, cysylltwyd â'r rhai a fynychodd a'u hymgynull gan bartneriaid strategol Estyn Llaw. Yn ogystal, comisiynwyd Estyn Llaw hefyd ar sail sefydliadol i ddarparu cyrsiau hyfforddi pwrpasol. Isod ceir rhestr o'r meysydd hyfforddiant a gynigwyd gan Estyn Llaw:

- Hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iaith
- Hyfforddiant mewn Recriwtio Gwirfoddolwyr Dwyieithog
- Hyfforddiant mewn iaith a Gofal
- Hyfforddiant wrth Ddatblygu Dwyieithrwydd
- Ymdrin â'r cyfryngau'n ddwyieithog
- Cadeirio cyfarfodydd dwyieithog
- Gweithio gyda chymunedau iaith Gymraeg
- Datblygu Gwefan dwyieithog
- Ymgymryd ag archwiliad Sgiliau Iaith Gymraeg


5.4 Cefnogaeth ac Ymgynghoriad

Mae Estyn Llaw wedi darparu cefnogaeth ymarferol hefyd i fudiadau sy'n edrych ar ddatblygu'r iaith Gymraeg. Maent wedi gweithio gyda grwpiau i ddatblygu cynlluniau a pholisïau'r iaith Gymraeg, wedi cynnig cyngor ar gysylltu â gwirfoddolwyr dwyieithog, proffilio cymunedol a sefydliadol a hunaniaeth gorfforaethol. Isod ceir rhestr o rhai o'r meysydd y mae'r gefnogaeth hon wedi ymdrin â hwy.

- Gwirfoddoli dwyieithog
- Cefnogaeth wrth ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg
- Dylunio Dwyieithog a Hunaniaeth Gorfforaethol
- Gweithio gyda Chyfieithwyr
- Trefnu digwyddiadau dwyieithog
- TG a'r Iaith Gymraeg
- Cymunedau'n Gyntaf - proffilio cymunedol
- Dwyieithrwydd yn y Gweithle
- Sesiynau briffio penodol

5.5 Strwythur Sefydliadol a Model Darparu

Isod ceir cynrychiolaeth ar ffurf diagram o strwythur y prosiect a'r model darparu.



6. Dadansoddiad o Weithio mewn Partneriaeth

6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn ddadansoddiad o draweffaith gweithio mewn partneriaeth a ymgwymerwyd gan Estyn Llaw. Fe'i bwriadwyd i roi darlun o draweffaith gweithio mewn partneriaeth ar bwynt darparu a chysylltu â'r sector. Nid yw'n ddadansoddiad o'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth nac o'r perthnasau rhwng partneriaid strategol, ond fe'i bwriadwyd i fesur traweffaith y gwaith sydd wedi'i wneud.

6.2 Grŵp Rhanddeiliaid

Mae'r dadansoddiad wedi'i seilio ar ymgynghoriad gyda mudiadau partner y mae Estyn Llaw wedi darparu gwasanaethau gyda hwy, yn wahanol i fuddiolwyr y mae Estyn Llaw wedi darparu gwasanaeth ar eu cyfer. Mae'r adran hon felly wedi'i seilio ar ddadansoddiad o'r themâu allweddol sy'n perthyn i bartneriaeth wrth iddynt godi mewn cyfweiliadau â'r cyrff hyn. Er ein bod wedi sicrhau cyfrinachedd yr unigolion a siaradodd â ni, mae hunaniaeth partneriaid strategol Estyn Llaw yn fater cofnod cyhoeddus. Mae Estyn Llaw wedi sefydlu Fforymau Iaith ym mhob un o'r pedwar sir lle mae'r prosiect yn gweithredu. Yn Sir Gâr a Cheredigion, mae gan y fforymau gynrychiolaeth o:

- Estyn Llaw
- Y Cyngorau Gwirfoddol Sirol Lleol
- Y Mentrau Iaith Lleol
- Yr Awdurdod Lleol

Ym Mhowys a Sir Benfro, mae'r partneriaethau yn ddatblygiadau diweddar sydd heb gynrychiolaeth yr awdurdorau lleol ar hyn o bryd.

6.3 Heriau ymhlith Partneriaid Strategol

Gofynnwyd i bob un o'r partneriaid strategol a holwyd i roi sylwadau ar yr heriau yr oeddynt hwy ac Estyn Llaw yn eu hwynebu fel partneriaid strategol.

Mae'r prif heriau a rhai sylwadau ategol i'w gweld yn y tabl isod:

Thema	Sylwadau
Yr angen, yn y lle cyntaf, i godi ymwybyddiaeth ymhlith mudiadau gwirfoddol ym mhob sir ynghylch pwysigrwydd dwyieithrwydd.	<i>"Yr her oedd i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg ymhlith grwpiau yn yr ardal. [the challenge was to raise awareness about the importance of the Welsh language amongst groups in the area." - Cynrychiolydd partner strategol.</i>
